**Datganiad Preifatrwydd**

Mae'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn nodi sut rydym yn diogelu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni. Rydym yn gofyn i chi roi gwybodaeth am renti at y dibenion canlynol:

- pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol
- pennu Rhenti Cyfeirio Lleol
- prisio'r elfen llety ar gyfer ceisiadau am fudd-dal tai
- prisio rhenti o dan Ddeddf Rhenti 1977

Mae dyletswydd statudol arnom i ddefnyddio data am renti at y dibenion hyn ond nid oes gennym bŵer statudol i gasglu'r wybodaeth. Felly, rydym yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth a ddarperir yn wirfoddol gennych, sy'n golygu, os ydych yn darparu unrhyw ddata personol, eich bod yn cydsynio iddynt gael eu defnyddio yn unol â'r datganiad hwn.

Bydd eich gwybodaeth am renti a'ch manylion cyswllt personol yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithredu fel Swyddogion Rhenti Cymru. Ni fydd neb y tu hwnt i Swyddogion Rhenti Cymru yn cael mynediad at eich data personol.

Rydym hefyd yn llunio crynodebau ystadegol o'ch data ar renti i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ffurfio dealltwriaeth o lefelau rhent a natur y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Darperir data dienw ar renti i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cyfrifo'r Mynegai Prisiau Rhenti Preifat (PIPR), ystadegyn swyddogol sy'n olrhain costau rhenti cyfartalog a lefelau chwyddiant yn y sector. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/privaterentandhousepricesuk/latest

Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn ddibynadwy ac yn gyfredol, rydym yn gofyn i chi:

- roi gwybodaeth gywir i ni;
- rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau, er enghraifft, newidiadau i'ch manylion cyswllt;
- rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi yn rheolaidd, ar ôl cyfnod y cytunir arno, er mwyn diweddaru'r wybodaeth am yr eiddo rydych yn ei osod

Mae eich manylion cyswllt personol yn cael eu cadw gan Swyddogion Rhenti Cymru er mwyn inni allu cysylltu â chi ynglŷn â newidiadau i'ch manylion rhentu. Mae gennych hawl i dynnu caniatâd yn ôl i ni ddefnyddio'r manylion hyn i gysylltu â chi a hefyd i'ch manylion personol gael eu tynnu o'n cronfa ddata.

Os hoffech wybod rhagor am:

- yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, a sut y gallwch ofyn i ni gywiro unrhyw wallau;
- sut i dynnu eich caniatâd yn ôl i ni ddefnyddio eich data personol;

- cytundebau sydd rhyngom ni a sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth ddienw;
- ein cyfarwyddiadau ar gyfer staff ynghylch sut y dylent gasglu, defnyddio a dileu eich data personol; neu
- sut rydym yn mynd ati i wirio bod yr wybodaeth sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol

Anfonwch e-bost at RentOfficerHelpDesk@llyw.cymru neu ysgrifennwch at y Rheolwr Gweithrediadau, Swyddogion Rhenti Cymru, Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ.

Os hoffech wneud cwyn am y ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch data personol, anfonwch e-bost at swyddogdiogeludata@llyw.cymru neu ysgrifennwch at y Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

I gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd, a materion sy'n ymwneud â rhannu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy e-bostio casework@ico.org.uk neu drwy ysgrifennu at y First Contact Team, Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF